**EITEM AR YR AGENDA: 8**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**27 Hydref 2014**

# PROSIECT Y GYD-GANOLFAN GWASANAETHAU CYHOEDDUS – DIWEDDARIAD

**Adroddiad gan Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Diben y papur hwn yw rhoi gwybod i'r Aelodau am Brosiect y Gyd-Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus a thynnu sylw at gyfranogiad Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## Cefndir

2 Nod prosiect y Gyd-Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus yw uno timau ystafelloedd rheoli Gwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin a Gwasanaeth Tân ac Achub y De, a symud y tîm newydd i ystafell reoli frys Heddlu De Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Yr enw arni fydd y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae dyhead hefyd y bydd Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (YGAC) yn symud yno hefyd unwaith y daw'r prosiect yn fyw yn Ebrill 2016.

## Gwybodaeth

3 Cafodd prosiect y Gyd-Ganolfan ei lansio'n ffurfiol yn Ebrill 2014. Yna cadarnhaodd Llywodraeth Cymru bod cais am £3 miliwn drwy Buddsoddi i Arbed yn llwyddiannus. Ers y cyfnod hwnnw, mae tîm y prosiect wedi sefydlu'r strwythur llywodraethu ac mae gwaith yn mynd yn ei flaen i ddatblygu'r cytundebau a'r contractau cyfreithiol perthnasol.

4 Mae saith prif faes gorchwyl yn ymwneud â gweithgareddau penodol yn y prif brosiect, gan adrodd bob deufis i Grŵp Strategol Arweinyddiaeth y Prosiect a Bwrdd y Prosiect. Dyma'r prif feysydd gorchwyl sydd fwyaf risg-gritigol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru:

- Mae ffrwd waith y System Gorchymyn a Rheoli yn ceisio caffael system Gorchymyn a Rheoli newydd ar gyfer y Gyd-Ganolfan a'r Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd yn y Gogledd. Er mwyn lliniaru'r risg mae un o swyddogion Gwasanaeth Tân ac Achub y Gogledd wedi ei secondio i arwain y ffrwd waith. Mae'n dod â phrofiad helaeth i'r prosiect o gaffael y system gorchymyn a rheoli ar gyfer y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd yng Ngogledd Cymru.

- Parhad Busnes – Er mwyn symud y gwaith hwn yn ei flaen cynhelir cyfarfodydd rheolaidd i edrych ar y rhagdybiaethau cynllunio yn y gwasanaethau goleuadau glas ar eu hyd. Caiff buddiannau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru eu monitro gan Uwch Reolwr yr Ystafell Reoli a Pharhad Busnes.

**Argymhelliad**

5 Bod yr Aelodau'n nodi cynnydd Prosiect y Gyd-Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus.